YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

# Tymor yr Hydref (ii) 2017 —Dosbarth Blwyddyn 2 Mrs Williams

Thema'r tymor yw 'Fflam a Fflach!'

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor:

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**
Cyfathrebu ein syniadau trwy gyfrwng amrywiol ddulliau;

Datblygu'r gallu i roi enw ac arbed ein gwaith yn y man priodol.

**Addysg Grefyddol:**

Astudio pwysigrwydd goleuni o fewn amrywiol grefyddau;

Dysgu am stori'r Nadolig.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Dysgu sut i greu cylched drydanol syml;
- Dysgu am hanes trydan;
- Dysgu am wahanol ffynonellau goleuni;

Datblygiad Corfforol

- Datblygu a gwella ein ffitrwydd;
- Ymarfer ein sgiliau llawdriniol manwl yn yr ardal 'bysedd prysur'.

.

**Datblygiad Creadigol**
Sut i ddefnyddio golau a lliw i greu patrymau, effeithiau ac i fynegi teimladau;

Dysgu caneuon newydd a mwynhau ymarfer a pherfformio ein cyngerdd Nadolig;

Creu ffynhonnell goleuni gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau.

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

- Trafod sut y mae gwahanol oleuni yn gwneud i ni deimlo;
- Dysgu am ddiogelwch yn y cartref;
- Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau. Rhaid i ni geisio ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBYMCWilliams**

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae ' Gweithdy Sion Corn' yn y gornel chwarae rôl;
- Darllen a gwrando ar lawer o straeon doniol a diddorol;
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen;
- Mwynhau ysgrifennu at bwrpasau gwahanol, gan gynnwys ysgrifennu barddoniaeth syml;
- Ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Datblygiad Mathemategol**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau;
- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd a lluosi;
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur (amser) a thrin data;
- Chwarae amrywiaeth o gêmau mathemateg pen.

**Ymweliadau**

Canolfan Gelfyddydol Pontardawe 10/11/17

Theatr y Ffwrnes - 6/12/17 pantomeim Culhwch ac Olwen. -